CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 30 (Cy.4)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") drwy wneud y canlynol-

(a) ychwanegu diffiniad o "ysgol", rhoi diffiniad newydd o "disgybl chweched dosbarth" yn lle'r hen un, ac ychwanegu diffiniad newydd o "blwyddyn ysgol";

(b) newid ychydig eiriad paragraff 5 o Ran 1 o'r Atodlen i Reoliadau 2003 fel na fydd yn ofynnol mwyach i gorff llywodraethu ysgol ddatgan â phwy y mae disgybl yn siarad Cymraeg yn y cartref;

(c) newid geiriad paragraff 1 o Ran 2 o'r Atodlen honno fel bod modd i'r wybodaeth y gall fod yn ofynnol i'r corff llywodraethu ei darparu am ddisgyblion chweched dosbarth gynnwys gwybodaeth am ddisgyblion sydd wedi gadael yr ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol; ac

(ch) newid ychydig eiriad paragraff 1(c) o'r Rhan honno fel y bydd yr wybodaeth y gall fod yn ofynnol ei darparu ynghylch anghenion disgyblion, o ran sgiliau sylfaenol, am lythrennedd a rhifedd yn cynnwys bellach anghenion disgyblion ar ddiwedd, yn ogystal ag ar ddechrau, eu rhaglen gweithgareddau dysgu.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 30 (W.4)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Information About Individual Pupils) (Wales) (Amendment) Regulations 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations make minor amendments to the Education (Information About Individual Pupils) (Wales) Regulations 2003 ("the 2003 Regulations") by-

(a) adding a new definitions of "school", substituting a new definition of "sixth form pupil", and adding a new definition of "school year";

(b) slightly altering the wording of paragraph 5 of Part 1 of the Schedule to the 2003 Regulations so that the governing body of a school will no longer be required to specify with whom a pupil speaks Welsh at home;

(c) altering the wording of paragraph 1 of Part 2 of that Schedule so that information which the governing body may be required to provide about sixth form pupils can include information about pupils who have left the school during the course of the school year; and

(d) slightly altering the wording of paragraph 21(c) of that Part so that the information which may be required about pupils' basic skills needs for literacy and numeracy will now include pupils' needs at the end, as well as at the beginning, of their learning activities programme.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 30 (Cy.4)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *10 Ionawr 2006* |
| *Yn dod i rym* | *11 Ionawr 2006* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 537A(1), (2) a (4) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 11 Ionawr 2006.

**Diwygio Rheoliadau**

**2**.-(1) Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2003(**3**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor, mewnosoder y diffiniadau newydd canlynol-

"ystyr "blwyddyn ysgol" ("*school year*") yw'r cyfnod sy'n dechrau gyda'r tymor ysgol cyntaf i ddechrau ar ôl Gorffennaf ac sy'n dod i ben ar ddechrau'r tymor cyntaf o'r fath i ddechrau ar ôl y Gorffennaf canlynol;";

"ystyr "ysgol" ("*school*") yw ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol, ond nid yw'n cynnwys uned cyfeirio disgyblion;".

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 537A gan Ddeddf Addysg 1997 (p.44), adran 20, ac fe'i hamnewidiwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), adran 140(1) ac Atodlen 30, paragraffau 57 a 153. I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 579(1) o Ddeddf 1996.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 2003/3237 (Cy.137), a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/35 (Cy.2).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 30 (W.4)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Information About Individual Pupils) (Wales) (Amendment) Regulations 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *10 January 2006* |
| *Coming into force* | *11 January 2006* |

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 537A(1), (2) and (4) and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(**1**) and now vested in the National Assembly for Wales(**2**), the National Assembly for Wales hereby make the following Regulations:

**Title and commencement**

**1**. The title of these Regulations is the Education (Information About Individual Pupils) (Wales) (Amendment) Regulations 2006 and they come into force on 11 January 2006.

**Amendment of Regulations**

**2**.-(1) The Education (Information About Individual Pupils) (Wales) Regulations 2003(**3**) are amended as follows.

(2) In regulation 2, in the appropriate place in alphabetical order insert the following new definitions-

""school" ("*ysgol*") means a school maintained by a local education authority, but does not include a pupil referral unit;

"school year" ("*blwyddyn ysgol*") means the period beginning with the first school term to begin after July and ending with the beginning of the first such term to begin after the following July;".

(**1**) 1996 c.56. Section 537A was inserted by the Education Act 1997 (c.44), section 20, and substituted by the School Standards and Framework Act 1998 (c.31), section 140(1) and Schedule 30, paragraphs 57 and 153. For the meaning of "prescribed" and "regulations" *see* section 579(1) of the 1996 Act.

(**2**) The functions of the Secretary of State were transferred to the National Assembly by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(**3**) S.I. 2003/3237 (W.137), amended by S.I. 2005/35 (W.2).

(3) Yn rheoliad 2, yn lle'r diffiniad o "disgybl chweched dosbarth" rhodder-

"ystyr "disgybl chweched dosbarth" ("*sixth form pupil*") yw disgybl mewn ysgol sy'n cael addysg addas ar gyfer anghenion disgyblion dros yr oedran ysgol gorfodol;".

(4) Yn Rhan 1 o'r Atodlen, ym mharagraff 5, hepgorer "ac, os felly, gyda phwy".

(5) Yn Rhan 2 o'r Atodlen, ym mharagraff 1 yn lle "disgybl chweched dosbarth yn yr ysgol" rhodder "person sydd, neu a oedd, ar unrhyw adeg blaenorol yn ystod y flwyddyn ysgol y cafodd y cais am yr wybodaeth ei wneud ynddi, yn ddisgybl yn chweched dosbarth yr ysgol".

(6) Yn Rhan 2 o'r Atodlen, ym mharagraff 1(c) ar ôl "ddechrau" mewnosoder "a diwedd".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

10 Ionawr 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(3) In regulation 2, for the definition of "sixth form pupil" substitute-

""sixth form pupil" ("*disgybl chweched dosbarth*") means a pupil at a school who is in receipt of education suitable to the requirements of pupils above compulsory school age;".

(4) In Part 1 of the Schedule, in paragraph 5, omit "and, if so, with whom".

(5) In Part 2 of the Schedule, in paragraph 1 for "sixth form pupil at the school" substitute "person who is, or was at any previous time during the school year in which the request for the information was made, a pupil in the school's sixth form".

(6) In Part 2 of the Schedule, in paragraph 1(c) after "beginning" insert "and end".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

10 January 2006

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 30 (Cy.4)

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 30 (W.4)

## EDUCATION, WALES

The Education (Information About Individual Pupils) (Wales) (Amendment) Regulations 2006

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W220/06 ON